# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 29 Hydref 2014 i'w hateb ar 5 Tachwedd 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o hygyrchedd gofal iechyd meddwl i blant a'r glasoed? OAQ(4)0502(HSS)**W**

**2. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau y tu allan i oriau yn Ynys Môn? OAQ(4)0511(HSS)**W**

**3. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru gan Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru? OAQ(4)0498(HSS)

**4. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau acíwt yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? OAQ(4)0499(HSS)**W**

**5. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar drefniadau mynediad yn Ysbyty Glan Clwyd? OAQ(4)0512(HSS)

**6. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r camau nesaf yn dilyn cyhoeddi adroddiad Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru ar 23 Hydref? OAQ(4)0500(HSS)**W**

**7. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl arolygu annibynnol yn GIG Cymru? OAQ(4)0504(HSS)

**8. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwersi i ofal iechyd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru sy'n deillio o astudiaeth yr Athro Marcus Longley? OAQ(4)0503(HSS)**W**

**9. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ofal i gleifion â diabetes yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0510(HSS)**W**

**10.  Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyflogau gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd? OAQ(4)0513(HSS)**W**

**11. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith gwasanaethau iechyd trawsffiniol ar y GIG yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0506(HSS)

**12. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru gan yr Athro Marcus Longley a gyhoeddwyd ar 23 Hydref 2014? OAQ(4)0505(HSS)

**13. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o amseroedd aros presennol ar gyfer rheoli poen cronig yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0507(HSS)**W**

**14. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar amseroedd ymateb ambiwlans yng nghanolbarth Cymru? OAQ(4)0497(HSS)

**15. Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ganlyniadau yr arolwg diweddar gan Equiniti 360° Clinical? OAQ(4)0509(HSS)

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

**1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Cwnsler Cyffrediniol roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chyfeirio'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) at y Goruchaf Lys? OAQ(4)0070(CG)**W**

**2. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa sylwadau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u gwneud mewn perthynas â'r modd y cynhelir etholiadau yng Nghymru? OAQ(4)0071(CG)**W**

## Gofyn i Gomisiwn y Cynulliad

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.